# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD LLUN, 10FED GORFFENNAF, 2017**

Lleoliad

**Hen Eglwys y Santes Fair**
**Tremadog**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd : 03.07.17)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

**AELODAU CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cyllid)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL**

Mr Iwan Trefor Jones

**PENNAETH CYLLID**

Dafydd Edwards

**PENAETHIAID UWCHRADD**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

**PENAETHIAID CYNRADD**

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau
Mrs Menna Wynne Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Kerry Parry - Ysgol Ganllwyd

**UNDEBAU ATHRAWON**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

**LLYWODRAETHWYR**

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

Meirionnydd
Disgwyl enwebiad fel olynydd i Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr
Mrs Llinos Lloyd, Corff Cysgodol Dalgylch y Gader

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad

**ESGOBAETH**

Disgwyl enwebiad

**YSGOLION EGLWYS**

Disgwyl enwebiad

**YSGOLION ARBENNIG**

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg Dros Dro
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Ysgolion
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd i'r Fforwm ar gyfer 2017/18.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd i'r Fforwm ar gyfer 2017/18.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. COFNODION** 5 - 10

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2017.

(Copi'n amgaeedig)

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**7. CYLLIDEB A DIFFYG ARIANNOL YSGOL TYWYN** 11 - 12

I ystyried adroddiad gan Uwch Reolwr Ysgolion ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**8. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION 2016/17** 13 - 17

I ystyried adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**9. GRANTIAU YSGOLION 2017/18** 18 - 23

I ystyried adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**10. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH** 24 - 25

I ystyried adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 11. TALU-AR-LEIN

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

## 12. YMGYNGHORIAD CLWB BRECWAST

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

## 13. DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF

13 Tachwedd 2017
Chwefror 2018

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog, ar 7 Chwefror 2017 o 2.00 p.m. hyd 3.00 p.m.**

**Yn Bresennol:**

Mr Godfrey Northam (Cadeirydd) – Llywodraethwr Ysgol Llanllechid

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Penaethiaid Ysgolion :** Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Llion Williams (Ysgol y Garnedd), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn).

**Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Michael Sol Owen (Ysgol Glan y Môr)
Llinos Lloyd (Corff Cysgodol Bro Idris)
Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Ymddiheuriadau:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys), Kerry Parry (Ysgol y Ganllwyd)

**Croesawodd y Cadeirydd Trystan Larsen, Ysgol Rhostryfan, i'w gyfarfod cyntaf o'r Fforwm fel olynydd i Gwyn Howells, Pennaeth Ysgol y Gelli, a oedd wedi ymddeol yn ddiweddar.**

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

**2. <u>COFNODION</u>**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2016 fel rhai cywir.

## 2.1 MATERION YN CODI O'R COFNODION

### (i) Penderfyniad y Cabinet 13 Rhagfyr 2016

Atgoffwyd y Fforwm gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau yn deillio o drafodaethau yn y cyfarfod diwethaf o fwriad yr Aelod Cabinet i gyflwyno pryder y sector uwchradd o leihad niferoedd disgyblion yn disgyn yn 2017/18 ond yn cynyddu yn y ddwy flynedd ganlynol. Gwnaed cais i'r Aelod Cabinet Addysg a fyddai modd ystyried cynllun pontio i gynorthwyo ysgolion mewn sefyllfaoedd ariannol anodd ac fel bod ysgolion unigol yn osgoi diswyddo ac ail benodi staff mewn cyfnod cymharol fyr.

Tynnwyd sylw'r Fforwm gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg o benderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2016 fel a ganlyn:

(i) Fod y Cabinet yn comisiynu cynllun i'w osod yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18 i asesu ble ddylai'r llinell warchodaeth fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn defnyddio'r wybodaeth hwnnw wrth sefydlu cyllideb 2018/19;

(ii) Gan dderbyn fod yna drafodaethau wedi cychwyn gyda rhanddeiliaid ar asesu'r broblem, y dylid tanlinellu'r angen i'r Cyngor newydd ystyried canlyniadau'r trafodaethau hynny yn fuan yn oes y Cyngor er mwyn sefydlu datrysiad hir dymor cynaliadwy ar gyfer y sector Uwchradd;

(iii) Er mwyn prynu amser i hynny ddigwydd, ein bod yn gofyn i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau geisio pontio am ddwy flynedd y £298,990 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod i'w ariannu o falansau;

(iv) Er mwyn osgoi gwastraffu adnoddau drwy ddiswyddo ac ail gyflogi, fod gofyn i'r Aelod cabinet dros Adnoddau hefyd ystyried cynnwys yn ei gyllideb ar gyfer 2017/18 arian pontio i'r ysgolion hynny fyddai'n colli arian oherwydd lleihad yn y niferoedd plant gan ystyried hefyd y defnydd o falansau ysgolion unigol mewn unrhyw gynllun a gynigir.

Mewn ymateb, nodwyd werthfawrogiad gan y sector uwchradd o'r penderfyniad a'r gweithrediad uchod a fydd o gymorth i ysgolion unigol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (ii) Adrodd ar waith ymchwil i gyllideb a chynnydd diffyg ariannol Ysgol Tywyn

Tynnwyd sylw'r Fforwm gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg at benderfyniad y Cyngor fel amlinellir ym mhwynt 2.1 (i) er mwyn asesu y llinell warchodaeth. I'r perwyl hwn, nodwyd bod gwaith wedi ei gomisiynu ar sefyllfaoedd cyllidol Ysgol y Berwyn ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Diweddariad Cytundebau Lefel Gwasaneth 2017/18 i 2019/20**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Addysg bod y gwasanaethau i gyd wedi cyflwyno Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2017/18 ond nodwyd ymhellach bod 2 wasanaeth wedi gofyn am ymestyn y gwasanaeth am flwyddyn oherwydd sefydliad y Swyddfeydd Ardal a phenodiad y Swyddogion Busnes Ardal (sef CLG Uned Gefnogi Addysg (cynradd) a CLG Personél, Cyflogau a chefnogaeth Gyfreithiol).

Yng nghyd-destun cytundeb hefo cwmni CYNNAL, roedd y Gwasanaeth Addysg wedi llwyddo i gael gostyngiad yn y pris a bydd dyranidau ysgolion yn cael ei lleihau i adlewyrchu'r gostyngiad hwn. Nodwyd na fyddai unrhyw effaith ariannol ar ysgolion.

O safbwynt CLG Cynnal Tiroedd, dymunir ymestyn y gytundeb bresennol am flwyddyn er mwyn caniatáu i gwasanaeth adnabod anghenion ysgolion unigol.

Nododd Pennaeth y gobeithir y byddai'r gwasanaeth uchod yn ymweld â phob safle i drafod yr anghenion.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â'r gwasanaethau i Ysgol Bro Idris, esboniwyd bod y Gwasanaeth Addysg mewn trafodaethau gyda'r Pennaeth ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**3. RHAGOLWG BALANSAU YSGOLION 31 Mawrth 2017**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid i'r aelodau yn ystod y cyfarfod daenlen yn nodi rhagolwg balansau ysgolion 31 Mawrth 2017 a gwir falans 2013/14, 2014/15 a 2015/16.

Eglurwyd bod yr ysgolion hynny sydd wedi eu lliwio'n felyn wedi bod mewn diffyg neu gyda balansau dros 5% yn ystod y tair blynedd diwethaf.

O safbwynt y cynradd, rhagwelwyd gostyngiad sylweddol o £2,479,441 ar ddiwedd Mawrth 2016 i oddeutu £2,000,500 ym Mawrth 2017 (gostyngiad yn canran balansau o 6.91% i 5.5%), gyda'r uwchradd yn gostwng o £791,815 i £656,993 ym Mawrth 2017 (gostyniag yn canran balansau o 2.37% i 2.0%). Hyderir y gellir ym mis Mehefin eleni adrodd ar wir falansau ac ym mis Tachwedd cyflwyno gwybodaeth cenedlaethol o gymhariaethau balansau ysgolion awdurdodau eraill Cymru.

Croesawyd y lleihad cyffredinol ym malansau ysgolion cynradd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r rhagolygon.**

**4. YMGYNGHORIAD AR NEWID GEIRIAD CYNLLUN ARIANNU YSGOLION MEWN PERTHYNAS Â THROSGLWYDDO BALANSAU YSGOLION SY'N CAU**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg ynglyn ag ymgynghoriad ar newid geiriad cynllun ariannu ysgolion mewn perthynas a throsglwyddo balansau ysgolion sy'n cau.

(b) Nodwyd y derbyniwyd 27 ymateb gan yr ysgolion sef 20 o'r sector cynradd a 7 o'r sector uwchradd, gyda phob ysgol, ac eithrio un, o blaid newid geiriad cymal 4.8 i ddarllen:

"*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i'r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o'r fath trosglwyddir y gweddill i'r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.*

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo i'r Cabinet newid geiriad cymal 4.8 o'r Cynllun Ariannu Ysgolion yn unol â'r geiriad yn (b) uchod.**

**5. GWASANAETH TALU AR-LEIN**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg yn amlinellu'r bwriad a'r ymgysylltu a fu ynglŷn â chynllun fyddai'n galluogi rieni dalu ar-lein am ginio ysgol mewn ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.

(b) Derbyniwyd ymateb gan 8 ysgol ac fe nodwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cynllun ond codwyd rhai pryderon ynglyn â'r effaith i swyddi clercod arian cinio.

(c) Mewn ymateb i'r sylwadau wnaed gan ysgolion, nodwyd:

- Y byddai ysgolion angen gweld effaith y system ar arferion yr ysgol cyn dod i benderfyniad ynglŷn â gwaith y clercod arian ac mai mater lleol fyddai hyn
- Y byddai modd i deuluoedd sydd heb gyfrifiaduron wneud taliadau electroneg ar ffurf "PayPoint" (fel a welir mewn siopau ar gyfer talu am nwy a thrydan).
- Yn ogystal, fe fydd modd defnyddio ffonau symudol / tablet ar gyfer gwneud taliadau

(ch) O safbwynt y sector uwchradd, esboniwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal ond bod y sefyllfa ychydig mwy cymhleth yn nhermau dewisiadau o'r fwydlen ac angen system arall ar gyfer "till". Fodd bynnag, cyn symud ymlaen gyda'r uwchradd roedd dipyn mwy o waith i'w wneud i sefydlu'r system yn y sector cyntadd yn gyntaf. Nodwyd ymhellach bod trafodaethau yn parhau gyda Phennaeth ysgol newydd Bro Idris yn nhermau'r model cynradd o gasglu'r arian.

(d) Nodwyd bod 6 ysgol yn gweithio fel rhan o gynllun peilot i'r system ac fe welir manteision o fedru talu am dripiau ysgol, llefrith, gwersi offerynnau

cerdd, a.y.b. ac mewn ysgolion lleiaf yn fodd o leihau gorfod cadw arian parod ar safle'r ysgol.

(dd) Nododd Pennaeth Ysgol y Moelwyn bod yr ysgol honno yn defnyddio'r system ac yn fanteisiol i deuluoedd yn enwedig ers i'r banc gau ym Mlaenau Ffestiniog.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**5. GRANT 6ed DOSBARTH 2017/18**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid bod y grant oddeutu £195,000 yn uwch na'r hyn roedd wedi'i rhagweld yn y rhagolygon ariannol. Er fod y nifer disgyblion 6ed yn ein ysgolion wedi lleihau ychydig, mae'r nifer disgyblion sy'n cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru wedi cynyddu. Er hynny mae dull ariannu Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu nifer disgyblion 6ed sy'n llai na'r hyn yn ein ysgolion, a hynny yn gyson ar draws y 4 mlynedd diwethaf ers cychwyn y dull ariannu newydd. Fe fyddir yn rhyddhau'r wybodaeth i'r ysgolion hynny yn y dyddiau nesaf.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod bod angen eglurhad o'r tan-gyllido, ac awgrymwyd i'r Rheolwr Cyllid wneud darn o waith ymchwil i ganfod y rhesymau pam.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i gyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Mehefin.**

**6. GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION 2017/18**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid ni dderbyniwyd cadarnhad, hyd yma, o arian y Grant Amddifadedd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**7. GRANT GWELLA ADDYSG 2017/18**

Mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg, nodwyd bod gwybodaeth wedi cyrraedd ar lefel Gogledd Cymru yn cynnwys toriad o 0.7%. Nid oedd yn ymwybyddus ar hyn o bryd beth oedd blaenoriaethau Bwrdd Rheoli GwE gyda'r grant ar gyfer 2017/18.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth uchod.**

**8. GRANT £100 MILIWN AR LEFEL CENEDLAETHOL DROS 5 MLYNEDD Y CYNULLIAD YMA 2016-2020**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid nad oedd gwybodaeth ynglyn â'r uchod wedi ei dderbyn hyd yma gan Lywodraeth Cymru, bod y grant ar gyfer nifer o flaenoriaethau'r Llywodraeth, er enghraifft y mater maint dosbarthiadau ac fe ddarllenwyd erthygl ynglyn a'r mater gan nodi byddai'n anfon y wybodaeth ymlaen i aelodau'r Fforwm.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

9. **UNRHYW FATER ARALL**

Nododd un aelod ei anfodlonrwydd gyda'r fformiwla ariannu cynradd gan nad oedd yn gywir na theg. Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod y fformiwla dyrannu yn ymddangos yn annheg yn enwedig i ysgolion gydag oddeutu 60 o ddisgyblion
- Bod ymgynghoriad annibynnol wedi ei gyflawni oddeutu 3 / 4 mlynedd yn ôl i ddiwygio'r fformiwla ariannu cynradd arian
- Atgoffwyd yr angen i gynnal hyfforddiant i lywodraethwyr ar y fformiwla dyrannu

Mewn ymateb i'r uchod, addawodd y Rheolwr Cyllid y byddai'n egluro'r fformiwla ariannu i'r llywodraethwr ac os nad oedd yn fodlon gyda'r eglurhad bydd y mater yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf o'r Fforwm ym Mehefin 2017

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno eglurhad i'r llywodraethwr ac os oes angen cynnwys y mater ar raglen cyfarfod nesaf o'r Fforwm ym Mehefin 2017.**

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2017 |
| **TEITL** | Cyllideb a Diffyg Ariannol Ysgol Tywyn |
| **PWRPAS** | Ymateb i gais am wybodaeth gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried yr adroddiad |
| **AWDUR** | Owen Owens |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**

1.1 Ymhellach i Eitem 5 : Ysgolion gyda diffyg balansau' a'r penderfyniad isod yn cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion cynhaliwyd 29 Tachwedd 2016 –

> ***"3. YSGOLION GYDA DIFFYG BALANSAU***
> *Cyflwynwyd, yn unol â chais y Fforwm Cyllideb Ysgolion, adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu cefndir ynghyd ag atodiad a oedd yn rhestru'r ysgolion hynny sydd gyda diffyg balansau.*
> *Tynnwyd sylw bod y nifer o ysgolion gyda diffyg wedi cynyddu a bod 4 ysgol wedi bod gyda diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf ………*
> *Tynnwyd sylw bod Ysgolion Y Berwyn a Thywyn yn derbyn gwarchodaeth staffio ac awgrymwyd y dylid cynnal gwaith ymchwil pellach yng nghyd-destun ysgol Tywyn pam nad yw'r ysgol yn gallu gosod cyllideb gytbwys o fewn y gyllideb……………..*
> *(ii)* ***drefnu ymchwil pellach i gyllideb a chynnydd diffyg ariannol Ysgol Tywyn."***

**2. Diweddariad**

2.1 Mae arbenigwr annibynnol wedi cwblhau adolygiad ac wedi cyflwyno adroddiad (atodiad 1 - cyfrinachol)

2.2 Gofynnir i'r arbenigwr gyflwyno'i adroddiad ac wedi hynny agor y drafodaeth i aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion

2.3 Mae'r mater hwn hefyd yn gychwyn tuag at gyflawni elfennau o brosiect P1 yng Nghynllun y Cyngor 2017-18, sef:

- Dadansoddi sefyllfa gyllidol a chwricwlaidd ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion
- Adnabod anghenion lleiafswm staffio sydd ei angen er mwyn cynnal cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion;

- Argymell a chostio ble ddylai'r llinell warchodaeth staffio fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn i'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth honno wrth sefydlu cyllideb 2018/19

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| DYDDIAD | 10 Gorffennaf 2017 |
| TEITL | Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2016/17 |
| PWRPAS | Cyflwyno er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr adroddiad |
| AWDUR | Garem Jackson<br>Pennaeth Addysg (Dros Dro) |
| AELOD CABINET DROS ADDYSG | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1 <u>Cyfrifon Terfynol 2016/17</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2017 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2017 -

| | canran | 31/03/2016 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2017 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 6.91% | £2,479,441 | -£460,927 | £2,018,515 | 5.57% |
| Uwchradd | 2.37% | £791,815 | +£24,972 | £816,787 | 2.42% |
| Arbennig | 2.74% | £65,314 | -£22,084 | £43,230 | 1.54% |
| **Cyfanswm** | **4.66%** | **£3,336,570** | **-£458,039** | **£2,878,532** | **3.96%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi gostwng £458,039 yn ystod 2016/17 i £2,878,532 sy'n cyfateb i 3.96% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 17 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2016/17 gwerth £420,471 o'i gymharu gydag 16 ar ddiwedd 2015/16 gwerth £447,692.

- 12 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg £40,655 (amrywio rhwng £1,080 a £9,812)
- 4 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg £290,897 (amrywio rhwng £39,083 a £116,177)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg £88,919

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon.

## 3. Casgliad

3.1 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi lleihau o £1,586,885 (66 ysgol) ar 31/03/2016 i £1,285,447 (44 ysgol) ar 31/03/2017.

3.2 Yn sgil yr angen i ysgolion cynradd ddarganfod arbedion yn 2017/18, rhagwelir lleihad pellach ym malansau ysgolion cynradd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2017



| | | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2016 | Dyraniad Terfynol 2016/17 | Balansau 31/03/2017 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2017 | Cyfanswm Balansau dros 5% 31/03/2017 | Cyfanswm Balansau dros £50k neu £100k 31/03/2017 |
| | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £51,816 | £562,295 | 8.11% | £45,577 | £17,462 | |
| | 2 | 2004 | Nefyn | £10,229 | £500,314 | 4.92% | £24,609 | | |
| | 3 | 2006 | Llanrug | -£38,345 | £893,413 | 2.49% | £22,253 | | |
| | 4 | 2008 | Abererch | £12,052 | £285,357 | 4.02% | £11,470 | | |
| * | 5 | 2009 | Abersoch | £14,141 | £128,429 | 3.24% | £4,166 | | |
| * | 6 | 2010 | Beddgelert | £9,137 | £173,791 | 6.52% | £11,326 | £2,636 | |
| | 7 | 2011 | Bethel | £43,944 | £502,613 | 1.66% | £8,333 | | |
| | 8 | 2013 | Bodfeurig | £29,613 | £247,871 | 8.58% | £21,256 | £8,863 | |
| | 9 | 2015 | Borthygest | £11,631 | £222,951 | 5.09% | £11,338 | £191 | |
| | 10 | 2017 | Brynaerau | £28,001 | £233,288 | 8.15% | £19,021 | £7,357 | |
| | 11 | 2026 | Y Gelli | £26,207 | £679,519 | 4.56% | £30,976 | | |
| | 12 | 2028 | Penybryn | £62,561 | £486,690 | 14.71% | £71,576 | £47,241 | £21,576 |
| | 13 | 2033 | Treferthyr | £21,538 | £419,153 | 4.52% | £18,945 | | |
| * | 14 | 2035 | Cwm Y Glo | £20,429 | £160,405 | 7.03% | £11,276 | £3,256 | |
| | 15 | 2036 | Chwilog | £18,232 | £192,488 | 0.28% | £547 | | |
| | 16 | 2039 | Crud Y Werin | £7,234 | £264,380 | 0.05% | £123 | | |
| | 17 | 2042 | Dolbadarn | £84,132 | £570,756 | 15.33% | £87,506 | £58,968 | £37,506 |
| | 18 | 2046 | Edern | £17,946 | £289,582 | 12.57% | £36,403 | £21,924 | |
| * | 19 | 2047 | Felinwnda | £8,433 | £160,310 | 4.81% | £7,716 | | |
| | 20 | 2048 | Bro Plennydd | -£2,879 | £315,938 | 0.45% | £1,418 | | |
| | 21 | 2049 | Garndolbenmaen | £12,600 | £235,903 | 4.20% | £9,915 | | |
| * | 22 | 2051 | Glanadda | £47,293 | £189,676 | 10.03% | £19,025 | £9,541 | |
| * | 23 | 2059 | Llanaelhaearn | £10,548 | £170,706 | -0.84% | -£1,431 | | |
| | 24 | 2060 | Llanbedrog | £25,824 | £283,417 | 3.41% | £9,672 | | |
| | 25 | 2066 | Llangybi | £22,475 | £217,403 | 4.11% | £8,944 | | |
| | 26 | 2069 | Llanllechid | -£4,707 | £839,943 | 0.83% | £6,943 | | |
| | 27 | 2070 | Llanllyfni | £75,531 | £318,834 | 18.68% | £59,558 | £43,616 | £9,558 |
| | 28 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £27,031 | £195,591 | 9.87% | £19,313 | £9,533 | |
| * | 29 | 2078 | Baladeulyn | -£2,461 | £172,885 | -1.28% | -£2,219 | | |
| * | 30 | 2081 | Nebo | £27,584 | £175,088 | 7.53% | £13,191 | £4,437 | |
| | 31 | 2085 | Penisarwaen | £17,854 | £196,684 | 4.47% | £8,795 | | |
| | 32 | 2089 | Bro Lleu | £33,309 | £602,243 | 4.39% | £26,412 | | |
| | 33 | 2093 | Pentreuchaf | £605 | £433,834 | 1.22% | £5,297 | | |
| * | 34 | 2097 | Rhiwlas | -£778 | £181,863 | -2.16% | -£3,927 | | |
| | 35 | 2098 | Rhosgadfan | -£5,568 | £215,481 | -0.97% | -£2,087 | | |
| | 36 | 2099 | Rhostryfan | -£9,030 | £288,086 | -1.57% | -£4,536 | | |
| | 37 | 2103 | Sarn Bach | £29,044 | £218,776 | 12.84% | £28,095 | £17,156 | |
| | 38 | 2104 | Eifion Wyn | £54,013 | £699,224 | 3.21% | £22,458 | | |
| | 39 | 2108 | Talysarn | £22,551 | £413,810 | 12.27% | £50,777 | £30,087 | £777 |
| | 40 | 2110 | Y Gorlan | £38,471 | £391,452 | 12.23% | £47,886 | £28,314 | |
| | 41 | 2111 | Yr Eifl | £5,625 | £225,582 | 11.81% | £26,642 | £15,363 | |
| | 42 | 2112 | Tudweiliog | £10,760 | £203,119 | -1.36% | -£2,765 | | |
| | 43 | 2113 | Waunfawr | £30,305 | £444,349 | 0.95% | £4,241 | | |
| | 44 | 2116 | Glancegin | £132,130 | £757,907 | 16.16% | £122,484 | £84,589 | £72,484 |
| * | 45 | 2118 | Bab Coed Mawr | £46,838 | £197,490 | 26.58% | £52,500 | £42,625 | £2,500 |
| | 46 | 2119 | Yr Hendre | -£24,470 | £1,414,752 | -0.08% | -£1,080 | | |
| | 47 | 2122 | Bontnewydd | £19,452 | £645,915 | 4.74% | £30,648 | | |
| | 48 | 2123 | Y Garnedd | £42,583 | £1,007,453 | 1.90% | £19,123 | | |
| | 49 | 2125 | Cymerau | £54,085 | £1,152,026 | 4.99% | £57,450 | | £7,450 |
| | 50 | 2126 | Abercaseg | £45,615 | £378,036 | 3.49% | £13,178 | | |

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2017



| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2016 | Dyraniad Terfynol 2016/17 | Balansau 31/03/2017 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2017 | Cyfanswm Balansau dros 5% 31/03/2017 | Cyfanswm Balansau dros £50k neu £100k 31/03/2017 |
| 51 | 2127 | Y Felinheli | £2,940 | £540,891 | 0.85% | £4,599 | | |
| 52 | 2180 | Bala | £15,039 | £374,952 | 4.65% | £17,433 | | |
| 53 | 2181 | Traeth | £30,518 | £700,928 | 5.29% | £37,057 | £2,010 | |
| * 54 | 2183 | Brithdir | £26,112 | £164,941 | 6.72% | £11,080 | £2,833 | |
| 55 | 2185 | Corris | £37,349 | £256,836 | 7.35% | £18,888 | £6,046 | |
| * 56 | 2187 | Dinas Mawddwy | £29,961 | £189,073 | 3.31% | £6,265 | | |
| 57 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £50,025 | £246,805 | 16.90% | £41,715 | £29,375 | |
| 58 | 2190 | Bro Cynfal | £19,085 | £291,042 | 1.60% | £4,644 | | |
| * 59 | 2191 | Ganllwyd | £3,694 | £167,433 | 0.46% | £770 | | |
| * 60 | 2192 | Edmwnd Prys | £6,819 | £211,536 | 1.76% | £3,713 | | |
| 61 | 2194 | Llanbedr | £12,961 | £247,243 | 6.63% | £16,384 | £4,022 | |
| 62 | 2197 | Llanelltyd | £5,528 | £187,816 | 0.06% | £117 | | |
| * 63 | 2198 | Y Garreg | £11,919 | £166,702 | 7.44% | £12,403 | £4,068 | |
| 64 | 2199 | O.M.Edwards | £29,503 | £334,613 | 7.38% | £24,696 | £7,965 | |
| 65 | 2205 | Manod | £29,836 | £325,610 | 15.11% | £49,201 | £32,920 | |
| * 66 | 2207 | Pennal | £16,058 | £178,640 | 2.13% | £3,803 | | |
| 67 | 2208 | Cefn Coch | £30,869 | £586,638 | 4.27% | £25,055 | | |
| * 68 | 2210 | Talsarnau | £11,695 | £187,057 | -3.08% | -£5,761 | | |
| 69 | 2211 | Tanygrisiau | £4,983 | £303,703 | -3.23% | -£9,812 | | |
| 70 | 2212 | Penybryn | £87,877 | £771,563 | 3.54% | £27,322 | | |
| 71 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £43,462 | £259,262 | 11.18% | £28,991 | £16,028 | |
| 72 | 2214 | Frongoch | £35,448 | £164,762 | 29.56% | £48,704 | £40,466 | |
| * 73 | 2215 | Ieuan Gwynedd | £4,905 | £164,708 | -2.35% | -£3,868 | | |
| * 74 | 2216 | Friog | -£1,034 | £177,299 | -0.63% | -£1,108 | | |
| 75 | 2219 | Tan y Castell | £18,745 | £278,964 | 5.47% | £15,263 | £1,315 | |
| 76 | 2220 | Ffridd y Llyn | £20,808 | £273,496 | 8.44% | £23,084 | £9,409 | |
| 77 | 2221 | Maenofferen | £83,880 | £756,529 | 4.21% | £31,821 | | |
| 78 | 2227 | Hirael | £63,152 | £576,080 | 6.63% | £38,166 | £9,362 | |
| 79 | 2228 | Craig y Deryn | -£4,088 | £435,249 | 1.10% | £4,774 | | |
| 80 | 2229 | Bro Llifon | £7,324 | £468,159 | 4.18% | £19,557 | | |
| 81 | 3004 | Pont y Gôf | £32,812 | £392,300 | 16.61% | £65,171 | £45,556 | £15,171 |
| 82 | 3005 | Maesincla | £88,477 | £1,209,318 | 8.08% | £97,763 | £37,297 | £47,763 |
| 83 | 3009 | Faenol | £43,603 | £731,446 | 5.57% | £40,761 | £4,188 | |
| * 84 | 3010 | Foelgron | £7,574 | £171,948 | 3.43% | £5,891 | | |
| 85 | 3013 | Llandygai | £100,975 | £524,356 | 15.81% | £82,911 | £56,693 | £32,911 |
| 86 | 3018 | Llandwrog | £20,993 | £226,442 | 11.87% | £26,882 | £15,560 | |
| * 87 | 3023 | Llanystumdwy | £4,412 | £162,997 | -1.27% | -£2,063 | | |
| 88 | 3029 | Tregarth | £103,375 | £410,573 | 8.99% | £36,904 | £16,375 | |
| 89 | 3030 | Cae Top | £40,931 | £846,832 | 0.58% | £4,869 | | |
| 90 | 3041 | Dolgellau | £13,933 | £538,706 | 0.73% | £3,911 | | |
| 91 | 3300 | Santes Helen | £47,837 | £256,550 | 10.62% | £27,257 | £14,430 | |
| 92 | 3301 | Our Lady | £20,886 | £381,932 | 4.78% | £18,259 | | |
| 93 | 3305 | Beuno Sant | -£2,904 | £256,405 | 9.63% | £24,704 | £11,883 | |
| | | **CYNRADD** | **£2,479,441** | **£36,255,404** | **5.57%** | **£2,018,515** | **£820,960** | **£247,695** |

* 21 ysgolion gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2016/17

# Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2017



| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2016 | Dyraniad Terfynol 2016/17 | Balansau 31/03/2017 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2017 | Cyfanswm Balansau dros 5% 31/03/2017 | Cyfanswm Balansau dros £50k neu £100k 31/03/2017 |
| 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | £63,584 | £2,037,439 | 4.66% | £94,870 | | |
| 2 | 4003 | Botwnnog | -£37,815 | £1,866,880 | -2.19% | -£40,937 | | |
| 3 | 4004 | Brynrefail | £23,042 | £3,346,704 | 4.01% | £134,145 | | £34,145 |
| 4 | 4007 | Dyffryn Nantlle | £136,584 | £2,280,190 | 3.26% | £74,256 | | |
| 5 | 4009 | Eifionydd | £39,441 | £1,809,074 | 1.05% | £19,075 | | |
| 6 | 4030 | Y Gader | £235,705 | £1,979,728 | 10.21% | £202,076 | £103,090 | £102,076 |
| 7 | 4031 | Y Moelwyn | £124,343 | £1,764,749 | 14.06% | £248,184 | £159,946 | £148,184 |
| * 8 | 4032 | Tywyn | -£59,375 | £1,470,569 | -7.90% | -£116,177 | | |
| * 9 | 4033 | Y Berwyn | -£118,686 | £1,661,816 | -5.70% | -£94,699 | | |
| 10 | 4034 | Ardudwy | £76,099 | £1,532,708 | 3.53% | £54,177 | | |
| 11 | 4036 | Friars | £110,361 | £5,277,412 | 0.28% | £14,982 | | |
| 12 | 4037 | Tryfan | £29,639 | £2,338,533 | 1.17% | £27,384 | | |
| 13 | 4039 | Syr Hugh Owen | -£81,362 | £4,010,507 | -0.97% | -£39,083 | | |
| 14 | 4040 | Glan Y Môr | £250,256 | £2,305,763 | 10.35% | £238,535 | £123,247 | £138,535 |
| | | **UWCHRADD** | **£791,815** | **£33,682,071** | **2.42%** | **£816,787** | **£386,283** | **£422,940** |

* 2 ysgolion gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2016/17

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3502 | Pendalar | -£54,191 | £1,722,551 | -5.16% | -£88,919 | | |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | £119,505 | £1,078,899 | 12.25% | £132,149 | £78,204 | £32,149 |
| | | **ARBENNIG** | **£65,314** | **£2,801,450** | **1.54%** | **£43,230** | **£78,204** | **£32,149** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **£3,336,570** | **£72,738,926** | **3.96%** | **£2,878,532** | **£1,285,447** | **£702,784** |

| | | |
|---|---|---|
| CYNRADD | 40 | 10 |
| UWCHRADD | 3 | 4 |
| ARBENNIG | 1 | 1 |
| **CYFANSWM** | **44** | **15** |

Eitem 9

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2017 |
| **TEITL** | Grantiau Ysgolion 2017/18 |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Garem Jackson,<br>Pennaeth Addysg (Dros Dro) |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**Dyma grynodeb fesul sector o'r gwahanol grantiau am 2017/18 –**

| Ysgolion | *GDD 5-15oed* | *GDD dan 5oed* | **GDD cyfanswm** | *GGA Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol* | *GGA Eraill* | **GGA cyfanswm** | **Grant 6ed dosbarth** | **Cyfanswm grantiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | *£1,198,971* | *£222,200* | **£1,421,171** | *£3,068,655* | *£620,783* | **£3,689,438** | | **£5,110,609** |
| Canol | *£41,592* | *£2,800* | **£44,392** | *£53,316* | *£23,129* | **£76,445** | | **£120,837** |
| Uwchradd | *£769,638* | | **£769,638** | | *£387,273* | **£387,273** | **£3,407,388** | **£4,564,298** |
| Arbennig | *£35,650* | *£600* | **£36,250** | | *£14,282* | **£14,282** | | **£50,532** |
| **Cyfanswm** | ***£2,045,850*** | ***£225,600*** | **£2,271,450** | ***£3,121,971*** | ***£1,045,467*** | **£4,167,438** | **£3,407,388** | **£9,846,276** |

Mae **atodiad 1** yn manylu ar y prif grantiau sydd wedi'i datganoli i pob ysgol yng Ngwynedd am 2017/18 – cyfanswm o £9.8miliwn uwchben y £71miliwn a ddyrennir gan y Cyngor.

**Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2017/18 £2,271,450** (2016/17 £2,203,350)
Cyn Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) wedi'i ail-enwi, ond gyda'r un dibenion. Dyrennir y grant ar sail nifer disgyblion gyda hawl cinio am ddim. Ar gyfer yr elfen disgyblion o oed ysgol statudol 5-15 oed £1,150 y pen a £600 y pen am yr elfen disgyblion dan 5 oed. Pwrpas y grant ydi targedu ein disgyblion mwyaf difreintiedig i wella safonau llythrennedd, rhifedd a hefyd i gau'r bwlch rhwng y plant hyn a'u cyfoedion.

**Grant Gwella Addysg (GGA) 2017/18 £4,167,438** (2016/17 £4,171,818)
Pwrpas y GGA ydi codi safonau addysgu. Mae fformiwla benodol ar gyfer adnabod elfen ddamcaniaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gyda gofyn i weithio tuag at gymhareb o 1:8 oedolyn i ddisgyblion yn y blynyddoedd meithrin a derbyn a chymhareb o 1:15 ym mlynyddoedd 1 a 2.

Mae gweddill y GGA yn cael ei ddyrannu ar sail 80% nifer disgyblion a 20% ar sail niferoedd cinio am ddim.

Mae GwE yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i ysgolion ar eu defnydd o'r GGA a'r GDD, gan gymryd cyfrifoldeb dros fonitro a herio'u defnydd o'r cyllid hwn.

**Grant 6ed dosbarth 2017/18 £3,407,388** (2016/17 £3,277,221)
O'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd mae 7 yn darparu cyrsiau 6ed dosbarth. Mae'r grant yn cael ei ddyrannu ar sail cyfuniad o nifer disgyblion/nifer cyrsiau, amddifadedd, gwasgared ac addysg cyfrwng Gymraeg.

# Grantiau Ysgolion 2017/18

| | | | Grant Datblygu Disgyblion | | | Grant Gwella Addysg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhif ysgol | enw ysgol | GDD 5-15 oed | GDD dan 5 oed | cyfanswm GDD | Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol | eraill | cyfanswm GGA | Grant 6ed dosbarth | cyfanswm grantiau ysgolion 2017/18 |
| 1 | 6612000 | Ysgol Gwaun Gyfni | £23,000 | £4,200 | £27,200 | £41,737 | £10,536 | £52,273 | | £79,473 |
| 2 | 6612004 | Ysgol Gynradd Nefyn | £16,100 | £3,000 | £19,100 | £46,074 | £9,834 | £55,908 | | £75,008 |
| 3 | 6612006 | Ysgol Llanrug | £21,850 | £6,000 | £27,850 | £84,701 | £15,521 | £100,221 | | £128,071 |
| 4 | 6612008 | Ysgol Gynradd Abererch | £5,750 | £1,800 | £7,550 | £18,887 | £4,246 | £23,133 | | £30,683 |
| 5 | 6612009 | Ysgol Abersoch | £2,300 | £1,800 | £4,100 | £9,476 | £1,640 | £11,116 | | £15,216 |
| 6 | 6612010 | Ysgol Beddgelert | £5,750 | £0 | £5,750 | £3,510 | £1,205 | £4,715 | | £10,465 |
| 7 | 6612011 | Ysgol Bethel | £5,750 | £1,200 | £6,950 | £42,322 | £8,301 | £50,623 | | £57,573 |
| 8 | 6612013 | Ysgol Bodfeurig | £5,750 | £1,200 | £6,950 | £16,150 | £3,629 | £19,779 | | £26,729 |
| 9 | 6612015 | Ysgol Gynradd Borth-Y-Gest | £4,600 | £0 | £4,600 | £22,301 | £3,743 | £26,044 | | £30,644 |
| 10 | 6612017 | Ysgol Brynaerau | £4,600 | £1,800 | £6,400 | £17,934 | £4,261 | £22,195 | | £28,595 |
| 11 | 6612026 | Ysgol Y Gelli | £13,800 | £1,200 | £15,000 | £73,568 | £12,539 | £86,107 | | £101,107 |
| 12 | 6612028 | Ysgol Penybryn | £24,150 | | £24,150 | | £8,294 | £8,294 | | £32,444 |
| 13 | 6612033 | Ysgol Treferthyr | £17,250 | £2,400 | £19,650 | £31,066 | £7,516 | £38,582 | | £58,232 |
| 14 | 6612035 | Ysgol Cwm Y Glo | £3,450 | £0 | £3,450 | £4,709 | £1,441 | £6,151 | | £9,601 |
| 15 | 6612036 | Ysgol Gynradd Chwilog | £1,150 | £1,800 | £2,950 | £14,520 | £2,769 | £17,289 | | £20,239 |
| 16 | 6612039 | Ysgol Crud-Y-Werin | £4,600 | £0 | £4,600 | £20,332 | £3,820 | £24,152 | | £28,752 |
| 17 | 6612042 | Ysgol Dolbadarn | £9,200 | £3,600 | £12,800 | £65,480 | £9,937 | £75,416 | | £88,216 |
| 18 | 6612046 | Ysgol Gynradd Edern | £13,800 | £3,000 | £16,800 | £16,919 | £4,632 | £21,551 | | £38,351 |
| 19 | 6612047 | Ysgol Felinwnda | £1,150 | £0 | £1,150 | £4,033 | £1,234 | £5,267 | | £6,417 |
| 20 | 6612048 | Ysgol Bro Plenydd | £5,750 | £1,200 | £6,950 | £25,192 | £4,651 | £29,843 | | £36,793 |
| 21 | 6612049 | Ysgol Gynradd Garndolbenmaen | £4,600 | £1,200 | £5,800 | £14,520 | £3,029 | £17,549 | | £23,349 |
| 22 | 6612051 | Ysgol Glanadda | £14,950 | | £14,950 | | £4,374 | £4,374 | | £19,324 |
| 23 | 6612059 | Ysgol Gynradd Llanaelhaearn | £2,300 | £600 | £2,900 | £2,065 | £1,606 | £3,671 | | £6,571 |
| 24 | 6612060 | Ysgol Gynradd Llanbedrog | £10,350 | £1,800 | £12,150 | £26,207 | £4,683 | £30,889 | | £43,039 |
| 25 | 6612066 | Ysgol Gynradd Llangybi | £6,900 | £1,800 | £8,700 | £10,430 | £3,268 | £13,697 | | £22,397 |
| 26 | 6612069 | Ysgol Llanllechid | £31,050 | £6,000 | £37,050 | £89,406 | £16,010 | £105,417 | | £142,467 |
| 27 | 6612070 | Ysgol Gynradd Llanllyfni | £14,950 | £1,200 | £16,150 | £21,778 | £6,480 | £28,258 | | £44,408 |
| 28 | 6612075 | Ysgol Babanod Morfa Nefyn | £8,050 | £1,800 | £9,850 | £19,810 | £2,403 | £22,213 | | £32,063 |
| 29 | 6612078 | Ysgol Baladeulyn | £6,900 | £1,200 | £8,100 | £10,768 | £2,210 | £12,978 | | £21,078 |
| 30 | 6612081 | Ysgol Gynradd Nebo | £2,300 | £0 | £2,300 | £2,741 | £1,305 | £4,046 | | £6,346 |

| | | | Grant Datblygu Disgyblion | | | Grant Gwella Addysg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhif ysgol | enw ysgol | GDD 5-15 oed | GDD dan 5 oed | cyfanswm GDD | Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol | eraill | cyfanswm GGA | Grant 6ed dosbarth | cyfanswm grantiau ysgolion 2017/18 |
| 31 | 6612085 | Ysgol Gymuned Penisarwaun | £0 | £0 | £0 | £18,364 | £2,755 | £21,119 | | £21,119 |
| 32 | 6612089 | Ysgol Bro Lleu | £21,850 | £4,800 | £26,650 | £66,371 | £12,765 | £79,136 | | £105,786 |
| 33 | 6612093 | Ysgol Gynradd Pentreuchaf | £11,500 | £0 | £11,500 | £38,078 | £7,622 | £45,700 | | £57,200 |
| 34 | 6612097 | Ysgol Rhiwlas | £1,150 | £0 | £1,150 | £11,014 | £2,426 | £13,440 | | £14,590 |
| 35 | 6612098 | Ysgol Gynradd Rhosgadfan | £6,900 | £1,200 | £8,100 | £13,659 | £3,285 | £16,944 | | £25,044 |
| 36 | 6612099 | Ysgol Gynradd Rhostryfan | £5,750 | £0 | £5,750 | £27,744 | £5,255 | £33,000 | | £38,750 |
| 37 | 6612103 | Ysgol Sarn Bach | £1,150 | £0 | £1,150 | £10,768 | £2,555 | £13,323 | | £14,473 |
| 38 | 6612104 | Ysgol Eifion Wyn | £10,350 | £2,400 | £12,750 | £64,434 | £11,699 | £76,133 | | £88,883 |
| 39 | 6612108 | Ysgol Gynradd Talysarn | £17,250 | £4,200 | £21,450 | £30,635 | £6,761 | £37,396 | | £58,846 |
| 40 | 6612110 | Ysgol Y Gorlan | £6,900 | £2,400 | £9,300 | £33,987 | £5,194 | £39,182 | | £48,482 |
| 41 | 6612111 | Ysgol Yr Eifl | £12,650 | £6,600 | £19,250 | £18,610 | £4,070 | £22,680 | | £41,930 |
| 42 | 6612112 | Ysgol Gynradd Tudweiliog | £0 | £0 | £0 | £17,165 | £2,672 | £19,837 | | £19,837 |
| 43 | 6612113 | Ysgol Waunfawr | £25,300 | £6,000 | £31,300 | £49,149 | £9,962 | £59,111 | | £90,411 |
| 44 | 6612116 | Ysgol Glancegin | £65,550 | £22,800 | £88,350 | £86,792 | £18,892 | £105,685 | | £194,035 |
| 45 | 6612118 | Ysgol Babanod Coedmawr | £10,350 | £1,800 | £12,150 | £19,379 | £3,024 | £22,403 | | £34,553 |
| 46 | 6612119 | Ysgol Yr Hendre | £88,550 | £14,400 | £102,950 | £144,425 | £30,193 | £174,619 | | £277,569 |
| 47 | 6612122 | Ysgol Bontnewydd | £9,200 | £1,800 | £11,000 | £52,225 | £9,575 | £61,800 | | £72,800 |
| 48 | 6612123 | Ysgol Gymraeg Y Garnedd | £21,850 | £3,600 | £25,450 | £117,085 | £20,325 | £137,410 | | £162,860 |
| 49 | 6612125 | Ysgol Cymerau | £58,650 | £8,400 | £67,050 | £100,386 | £21,232 | £121,617 | | £188,667 |
| 50 | 6612126 | Ysgol Abercaseg (Babanod) | £8,050 | £3,600 | £11,650 | £91,651 | £8,949 | £100,601 | | £112,251 |
| 51 | 6612127 | Ysgol Y Felinheli | £6,900 | £0 | £6,900 | £59,729 | £9,783 | £69,512 | | £76,412 |
| 52 | 6612180 | Ysgol Bro Tegid | £12,650 | £1,800 | £14,450 | £42,475 | £7,935 | £50,410 | | £64,860 |
| 53 | 6612181 | Ysgol Y Traeth | £26,450 | £4,200 | £30,650 | £65,910 | £13,700 | £79,610 | | £110,260 |
| 54 | 6612183 | Ysgol Brithdir | £0 | £0 | £0 | £3,244 | £753 | £3,997 | | £3,997 |
| 55 | 6612185 | Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas | £5,750 | £0 | £5,750 | £16,488 | £3,894 | £20,383 | | £26,133 |
| 56 | 6612187 | Ysgol Dinas Mawddwy | £958 | £0 | £958 | £3,026 | £699 | £3,725 | | £4,684 |
| 57 | 6612189 | Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy | £4,600 | £0 | £4,600 | £26,330 | £4,090 | £30,420 | | £35,020 |
| 58 | 6612190 | Ysgol Bro Cynfal | £8,050 | £1,800 | £9,850 | £24,515 | £5,201 | £29,717 | | £39,567 |
| 59 | 6612191 | Ysgol Ganllwyd | £479 | £0 | £479 | £1,142 | £363 | £1,505 | | £1,984 |
| 60 | 6612192 | Ysgol Edmwnd Prys | £4,600 | £1,800 | £6,400 | £13,843 | £2,484 | £16,327 | | £22,727 |
| 61 | 6612194 | Ysgol Gynradd Llanbedr | £8,050 | £600 | £8,650 | £14,028 | £3,244 | £17,271 | | £25,921 |
| 62 | 6612197 | Ysgol Llanelltyd | £958 | £0 | £958 | £6,691 | £1,315 | £8,006 | | £8,964 |
| 63 | 6612198 | Ysgol Y Garreg | £2,300 | £0 | £2,300 | £5,048 | £1,799 | £6,847 | | £9,147 |

| | | | Grant Datblygu Disgyblion | | | Grant Gwella Addysg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhif ysgol | enw ysgol | GDD 5-15 oed | GDD dan 5 oed | cyfanswm GDD | Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol | eraill | cyfanswm GGA | Grant 6ed dosbarth | cyfanswm grantiau ysgolion 2017/18 |
| 64 | 6612199 | Ysgol O M Edwards | £11,500 | £1,200 | £12,700 | £33,618 | £5,656 | £39,274 | | £51,974 |
| 65 | 6612205 | Ysgol Manod | £19,550 | £3,600 | £23,150 | £39,369 | £8,565 | £47,934 | | £71,084 |
| 66 | 6612207 | Ysgol Gynradd Pennal | £0 | £0 | £0 | £3,079 | £1,221 | £4,301 | | £4,301 |
| 67 | 6612208 | Ysgol Cefn Coch | £21,850 | £1,200 | £23,050 | £57,699 | £10,432 | £68,130 | | £91,180 |
| 68 | 6612210 | Ysgol Talsarnau | £0 | £0 | £0 | £14,089 | £2,572 | £16,662 | | £16,662 |
| 69 | 6612211 | Ysgol Gynradd Tanygrisiau | £13,800 | £0 | £13,800 | £21,501 | £6,020 | £27,521 | | £41,321 |
| 70 | 6612212 | Ysgol Gynradd Penybryn | £29,900 | £3,600 | £33,500 | £78,981 | £14,828 | £93,808 | | £127,308 |
| 71 | 6612213 | Ysgol Bro Hedd Wyn | £2,300 | £0 | £2,300 | £18,364 | £3,776 | £22,140 | | £24,440 |
| 72 | 6612214 | Ysgol Bro Tryweryn | £1,150 | £0 | £1,150 | £9,722 | £3,023 | £12,746 | | £13,896 |
| 73 | 6612215 | Ysgol Ieuan Gwynedd | £0 | £0 | £0 | £1,680 | £422 | £2,103 | | £2,103 |
| 74 | 6612216 | Ysgol Friog | £1,917 | £0 | £1,917 | £5,089 | £1,029 | £6,118 | | £8,035 |
| 75 | 6612219 | Ysgol Tanycastell | £5,750 | £0 | £5,750 | £21,440 | £5,127 | £26,567 | | £32,317 |
| 76 | 6612220 | Ysgol Ffridd Y Llyn | £3,450 | £0 | £3,450 | £23,254 | £4,531 | £27,785 | | £31,235 |
| 77 | 6612221 | Ysgol Maenofferen | £33,350 | £4,800 | £38,150 | £79,257 | £14,921 | £94,179 | | £132,329 |
| 78 | 6612227 | Ysgol Hirael | £31,050 | £6,000 | £37,050 | £51,117 | £11,041 | £62,158 | | £99,208 |
| 79 | 6612228 | Ysgol Craig y Deryn | £13,800 | £3,000 | £16,800 | £37,124 | £6,834 | £43,959 | | £60,759 |
| 80 | 661229 | Ysgol Bro Llifon | £14,950 | £1,200 | £16,150 | £46,074 | £8,063 | £54,137 | | £70,287 |
| 81 | 6613004 | Ysgol Pont Y Gof | £5,750 | £1,200 | £6,950 | £33,218 | £5,788 | £39,007 | | £45,957 |
| 82 | 6613005 | Ysgol Gynradd Maesincla | £102,350 | £24,000 | £126,350 | £93,097 | £25,677 | £118,774 | | £245,124 |
| 83 | 6613009 | Ysgol Y Faenol | £12,650 | £2,400 | £15,050 | £76,459 | £12,491 | £88,950 | | £104,000 |
| 84 | 6613010 | Ysgol Foel Gron | £2,300 | £0 | £2,300 | £14,428 | £2,123 | £16,550 | | £18,850 |
| 85 | 6613013 | Ysgol Llandygai | £29,900 | £2,400 | £32,300 | £40,353 | £10,045 | £50,399 | | £82,699 |
| 86 | 6613018 | Ysgol Gynradd Llandwrog | £4,600 | £0 | £4,600 | £7,785 | £2,889 | £10,674 | | £15,274 |
| 87 | 6613023 | Ysgol Gynradd Llanystumdwy | £1,150 | £0 | £1,150 | £6,493 | £1,792 | £8,286 | | £9,436 |
| 88 | 6613029 | Ysgol Tregarth | £12,650 | £4,800 | £17,450 | £36,448 | £6,855 | £43,303 | | £60,753 |
| 89 | 6613030 | Ysgol Cae Top | £26,450 | £8,400 | £34,850 | £76,459 | £14,639 | £91,097 | | £125,947 |
| 90 | 6613041 | Ysgol Gynradd Dolgellau | £6,708 | £2,000 | £8,708 | £17,211 | £3,511 | £20,722 | | £29,430 |
| 91 | 6613300 | Ysgol Santes Helen | £8,050 | £4,200 | £12,250 | £25,007 | £6,217 | £31,224 | | £43,474 |
| 92 | 6613301 | Ysgol Ein Harglwyddes | £14,950 | £4,200 | £19,150 | £41,338 | £7,728 | £49,065 | | £68,215 |
| 93 | 6613305 | Ysgol Beuno Sant | £10,350 | £0 | £10,350 | £7,877 | £3,371 | £11,248 | | £21,598 |
| | | **ysgolion cynradd** | **£1,198,971** | **£222,200** | **£1,421,171** | **£3,068,655** | **£620,783** | **£3,689,438** | | **£5,110,609** |

| | | | Grant Datblygu Disgyblion | | | Grant Gwella Addysg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhif ysgol | enw ysgol | GDD 5-15 oed | GDD dan 5 oed | cyfanswm GDD | Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol | eraill | cyfanswm GGA | Grant 6ed dosbarth | cyfanswm grantiau ysgolion 2017/18 |
| **1** | **6613401** | **Ysgol Bro Idris** | **£41,592** | **£2,800** | **£44,392** | **£53,316** | **£23,129** | **£76,445** | | £120,837 |
| | | **ysgolion canol** | **£41,592** | **£2,800** | **£44,392** | **£53,316** | **£23,129** | **£76,445** | | **£120,837** |
| 1 | 6614002 | Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda | £48,300 | | £48,300 | | £22,776 | £22,776 | £271,090 | £342,166 |
| 2 | 6614003 | Ysgol Botwnnog | £36,800 | | £36,800 | | £24,060 | £24,060 | £0 | £60,860 |
| 3 | 6614004 | Ysgol Brynrefail | £65,550 | | £65,550 | | £35,925 | £35,925 | £508,877 | £610,352 |
| 4 | 6614007 | Ysgol Dyffryn Nantlle | £55,200 | | £55,200 | | £23,171 | £23,171 | £342,996 | £421,367 |
| 5 | 6614009 | Ysgol Eifionydd | £32,200 | | £32,200 | | £23,007 | £23,007 | £0 | £55,207 |
| 6 | 6614030 | Ysgol Y Gader | £18,688 | | £18,688 | | £8,428 | £8,428 | £0 | £27,115 |
| 7 | 6614031 | Ysgol Y Moelwyn | £56,350 | | £56,350 | | £21,229 | £21,229 | £0 | £77,579 |
| 8 | 6614032 | Ysgol Uwchradd Tywyn | £31,050 | | £31,050 | | £17,530 | £17,530 | £0 | £48,580 |
| 9 | 6614033 | Ysgol Y Berwyn | £19,550 | | £19,550 | | £15,777 | £15,777 | £215,696 | £251,023 |
| 10 | 6614034 | Ysgol Ardudwy | £37,950 | | £37,950 | | £19,102 | £19,102 | £0 | £57,052 |
| 11 | 6614036 | Ysgol Friars | £128,800 | | £128,800 | | £64,334 | £64,334 | £925,409 | £1,118,543 |
| 12 | 6614037 | Ysgol Tryfan | £52,900 | | £52,900 | | £26,645 | £26,645 | £398,788 | £478,333 |
| 13 | 6614039 | Ysgol Syr Hugh Owen | £119,600 | | £119,600 | | £52,513 | £52,513 | £744,532 | £916,645 |
| 14 | 6614040 | Ysgol Glan Y Mor | £66,700 | | £66,700 | | £32,776 | £32,776 | £0 | £99,476 |
| | | **ysgolion uwchradd** | **£769,638** | | **£769,638** | | **£387,273** | **£387,273** | **£3,407,388** | **£4,564,298** |
| 1 | 3502 | Pendalar | £19,550 | £0 | £19,550 | | £8,801 | £8,801 | | £28,351 |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | £16,100 | £600 | £16,700 | | £5,480 | £5,480 | | £22,180 |
| | | **ysgolion arbennig** | **£35,650** | **£600** | **£36,250** | | **£14,282** | **£14,282** | | **£50,532** |
| | | **cyfanswm holl ysgolion** | **£2,045,850** | **£225,600** | **£2,271,450** | **£3,121,971** | **£1,045,467** | **£4,167,438** | **£3,407,388** | **£9,846,276** |
| | | *nifer ysgolion sydd ddim yn derbyn grant* | *6* | *34* | *6* | £44,798 | unedau Arsylwi Blynyddoedd Cynnar | | | |

**EITEM 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **TEITL** | **Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2017/18** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson**<br>**Pennaeth Addysg (Dros Dro)** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

1 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer amrediad o wasanaethau i ysgolion, ac mae cyfnod y cytundebau wedi dod i ben 31/03/17. Felly mae'r cytundebau yn cael eu cynnig eto am y cyfnod 1/04/17 i 31/03/20.

Gan fod y gwaith o sefydlu trefn y Swyddfeydd Ardal yn parhau, rhoddodd y Fforwm Cyllideb Ysgolion ei sêl bendith ar ymestyn y CLGau 'Uned Gefnogi Addysg' (cynradd) a 'Personel, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol' presennol am flwyddyn ychwanegol (2017/18). Hefyd rhoddwyd sêl bendith ar ymestyn y CLG Cynnal Tiroedd am flwyddyn er mwyn i'r gwasanaeth allu seilio'r cytundeb efo pob ysgol ar ddadansoddiad o anghenion pob safle unigol (yn hytrach nag ar sail hanesyddol).

Gweler yn yr atodiad grynodeb o ymatebion yr ysgolion, a sylwadau'r ysgolion ar y gwahanol gytundebau.

# CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

| | 2017/18 - 2019/20 | | | | | 2017/18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnal a Chadw Adeiladau | Archifau ac Amgueddfeydd | Gwas Cyllidol | Gwas Llyfrgelloedd | Rheoli Banc, Buddsoddiadau, Taliadau ac Incwm | Uned Gefnogi Addysg | Personel, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol | Cynnal Tiroedd |
| Cynradd | 93 | 89 | 93 | 93 | 93 | 93 | 93 | 84 |
| Uwchradd | 14 | | 14 | 9 | 14 | | 14 | 7 |
| Arbennig | 1 | | 2 | 2 | 2 | | 2 | |
| Dilynol | 1 | | 1 | | 1 | | 1 | 1 |

**Sylwadau Ysgolion Cynradd**

Cynnal Tiroedd - Y corff llywodraethol yn bryderus iawn am y gwasanaeth yma.  Bwriedir chwilio am ddarparwyr ein hunain i dorri gwellt.
Cynnal Tiroedd - Treialu eto am flwyddyn os gwelwch yn dda
Cynnal Tiroedd - Angen gwelliant sylweddol i'r gwasanaeth hwn
Cynnal Tiroedd - Angen trafod hyn yn bellach gan nad yw'r contractwyr yn cyflawni gofynion y CLG
Cynnal Tiroedd - Wedi llunio cytundeb gyda Cwmni Gwalch Cyf am 2017-18 fel cynllun peilot
Cynnal Tiroedd - Pryderus braidd nad ydym yn gallu defnyddio'r cae yn iawn gan bod y gwair mor hir (Tymor Yr Haf).
- Bydd rhaid ystyried go iawn os nad yw'r sefyllfa'n gwella eleni.
Cynnal Trioedd - Llywodraethwyr yn holi os oes gostyngiad yn sgil newid yn cynllun yr ysgol?
Cynnal Tiroedd - Mae'r ysgol yn bwriadu cael gwared â'r glaswellt o flaen yr ysgol yn fuan ac felly fydd dim gwaith cynnal yno.
- Mae'r Corff Llywodraethol felly yn awyddus i chi ail brisio'r cytundeb i'r pris adlewyrchu'r gwaith os gwelwch yn dda
Cynnal Tiroedd - Monitro niferoedd ymweliadau
Cynnal Tiroedd - Arwyddo ond i dderbyn cyngor gan y Rheolwr Geraint Hughes

Uned Gefnogi Addysg - Cytundeb yn gwbl ddibynnol ar arlwy swyddfeydd ardal addysg i'r dyfodol

Archifau ac Amgueddfeydd - Rydym yn ymrwymo i'r cytundeb yma ar y sail fod disgwyl i o leiaf 80 o ysgolion fod yn rhan o'r cynllun.
Os bydd y ffi yn fwy na'r swm o £285 dymunwn gael gwybod cyn cytuno yn derfynol

Cynnal a Chadw - 3.6 Gwasanaeth Cadwraeth Ynni - targedau angen eu diweddaru
Cynnal a Chadw - Llywodraethwyr yn holi os oes gostyngiad yn sgil yr adeilad newydd?
Cynnal a Chadw - Mae angen cael contractwyr lleol ar gyfer gwaith mân  brys! e.e. Toiledau

**Sylwadau Ysgolion Uwchradd**

Cynnal tiroedd - cytundeb gyda chontractwr allanol yn barod